

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffyrdd Ymuno tua'r De a thua'r
Gogledd Trosffordd Caernarfon,
Caernarfon, Gwynedd) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2021

The A487 Trunk Road (Caernarfon
Flyover Southbound & Northbound
Entry Slip Roads, Caernarfon,
Gwynedd) (Temporary Prohibition
of Vehicles) Order 2021

Gwnaed 2 Chwefror 2021

Made 2 February 2021

Yn dod i rym 8 Chwefror 2021

Coming into force 8 February 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffyrdd Ymuno tua'r De a thua'r Gogledd Trosffordd Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 8 Chwefror 2021.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Caernarfon Flyover Southbound & Northbound Entry Slip Roads, Caernarfon, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and it comes into force on 8 February 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 8 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 09:30 hours on 8 February 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o ffyrdd ymuno tua'r de a thua'r gogledd trosffordd Caernarfon yr A487 yng Nghaernarfon, Gwynedd.

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Chwefror 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the A487 Caernarfon flyover southbound and northbound entry slip roads at Caernarfon, Gwynedd.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 February 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(FFYRDD YMUNO TUA'R DE A THUA'R
GOGLEDD TROFFORDD CAERNARFON,
CAERNARFON, GWYNEDD) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar drosffordd Caernarfon yr A487, neu gerllaw iddi, yng Nghaernarfon, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o ffyrdd ymuno tua'r de a thua'r gogledd trosffordd Caernarfon. Ni fydd y ddwy ffordd ymuno ar gau ar yr un pryd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw mynd ar gylchfan yr A4086 Sgwâr Moriah, ar ffordd ymuno tua'r gogledd yr A487, dilyn yr A487 i gylchfan Ffordd y Gogledd a dychwelyd tua'r de ar gefnffordd yr A487.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar gylchfan yr A4086 Sgwâr Moriah, ar ffordd ymuno tua'r de yr A487 yna drwy Stryd y Degwm a Rhes Cwstenin ac ar Stryd Niwbwrch i barhau tua'r gogledd ar gefnffordd yr A487.

Disgwylir y bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 8 Chwefror 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro ar y ffordd ymuno tua'r de yn weithredol o 09:30 – 12:00 ar 8 Chwefror 2021 a'r gwaharddiad dros dro ar y ffordd ymuno tua'r gogledd yn weithredol o 12:00 – 15:30 ar yr un diwrnod neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A487 TRUNK ROAD (CAERNARFON
FLYOVER SOUTHBOUND & NORTHBOUND
ENTRY SLIP ROADS, CAERNARFON,
GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 Caernarfon flyover at Caernarfon, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the Caernarfon flyover southbound and northbound entry slip roads. Both slip roads will not be closed at the same time.

The alternative route for southbound vehicles is via the A4086 Moriah Square roundabout, the A487 northbound entry slip road, follow the A487 to Ffordd y Gogledd roundabout and return southbound on the A487 trunk road.

The alternative route for northbound vehicles is via the A4086 Moriah Square roundabout, the A487 southbound entry slip road then through Stryd y Degwm and Rhes Cwstenin and onto Newborough Street to proceed northbound on the A487 trunk road.

The Order is expected to come into force on 8 February 2021. The temporary prohibition on the southbound slip road is expected to operate from 09:30 – 12:00 on 8 February 2021 and on the northbound slip road from 12:00 – 15:30 on the same day or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government